

# Dysgu Cymraeg

## Cymraeg yn y Cartref

Gogledd Cymru  
(North Wales)



Y Ganolfan  
Dysgu Cymraeg  
Genedlaethol —  
National Centre  
for Learning Welsh



Dysgu  
Learn

# Cymraeg yn y cartref


## Croeso! Rhagarweiniad ...

### Croeso i Cymraeg yn y cartref.

The aim of Welsh in the Home is to provide you with additional phrases and vocabulary so that you can use more Welsh at home and support your child or children through bilingual education.

As well as useful Welsh phrases and vocabulary, you will learn a little about contemporary Welsh culture and traditions you can enjoy with your children, and pick up tips to help you develop your Welsh language skills in the home.

These children will help you understand which age groups are suited to activities and services mentioned in this course.



## Croeso'n ôl!

### Geirfa

**gwenwyn** – poison

**troli** – trolley

**casáu** – to hate

**tacluso** – to tidy up

**anghyfforddus** – uncomfortable


**anlwcus** – unlucky

**dyna ni** – there we go

**tu hwnt** – beyond

### Syniad da! – Awr Gymraeg yn y cartref

*Some of you might be aiming to change the language of the cartref to Cymraeg. While this may not be possible until you reach a higher level of fluency, you're on the right track! In the meantime, why not have an Awr Gymraeg (a Welsh hour) once a day (or once a week, depending on how busy you are) when everyone aims to speak only Cymraeg? Make sure you choose a time when you're relaxed and unhurried – perhaps around the dinner table nos Wener? Don't worry if you have to throw in the odd word in Saesneg. You'll be surprised with how much you already know and this extra practice will greatly improve your fluency and confidence.*



# Cân - Mynd ar Wyliau gan Caryl Parry Jones



Hei, dan ni'n mynd ar wyliau  
Gwyliau yn yr haul.

Mynd i Sbaen neu dŷ Nain  
Hen-dy Gwyn neu Glan-llyn  
I Awstralia a thu hwnt  
Neu am wythnos lawr ym Mwnt

[‘Mynd ar Wyliau’ Unawd BI 2 ac iau Eisteddfod 2020 - YouTube](#)



## Sgwrs 1

**Lyn:** Helo Eirian, sut aeth y gwyliau  
gwersylla?

**Eirian:** Wel, gweddol...

**Lyn:** Dim ond gweddol?

**Eirian:** Wel, roedd y Bala yn hyfryd  
a'r tywydd yn fendigedig, ond  
rodden ni'n anlwcus.

**Lyn:** O?

**Eirian:** Mi wnaeth Wil syrthio ar ei  
fraich o pan oedd o'n seiclo.  
Roedd rhaid iddo fo fynd i'r  
ysbyty ond roedd yr ysbyty yn  
brysur iawn! Mi wnaethon ni  
aros am oriau i weld y doctor.

**Lyn:** O na. Wnaeth Wil dorri ei fraich  
o?

**Eirian:** Do! Mi gaeth o blaster ac mi  
aethon ni'n ôl i'r babell, ond  
doedd Wil druan ddim yn medru  
cysgu o gwbl. Roedd y gwely  
gwynt yn rhy anghyfforddus!  
Roedd rhaid i ni ffeindio gwesty.

**Lyn:** Bechod! Dach chi'n mwynhau  
gwersylla.

**Eirian:** Dw i'n gwybod! Ond mi  
wnaethon ni ffeindio gwesty  
da. Roedd gynnyn nhw ystafell  
teulu a doedd o ddim yn rhy  
ddrud chwaith. Mi gaethon ni  
noson hyfryd yn y gwesty, ond  
wedyn...

**Lyn:** Be nesa?

**Eirian:** Roedd gen i boen bol. Ro'n i'n  
sâl drwy'r nos efo gwenwyn  
bwyd.

**Lyn:** Be wnest ti fwyta?

**Eirian:** Y cig yn y barbeciw oedd y  
broblem, dw i'n meddwl.

**Lyn:** O na.

**Eirian:** Ro'n i'n teimlo'n wan ac roedd  
Wil yn teimlo'n ddigalon. Doedd  
o ddim yn medru seiclo a mynd  
ar y llyn. Felly, mi benderfynon  
ni ddŵad adre.

**Lyn:** Bechod!

**Eirian:** Ia wir! Gobeithio byddwn ni'n  
fwy lwcus yr haf nesaf!

# Siaradwch: Lle aeth pawb ar eu gwyliau?

Dinbych y Pysgod



Llandudno



Taid


Mari a Morgan



Paris

Y Teulu Desai

Caerdydd



Iwerddon



Y Teulu Smith



Llundain

Y Teulu Roberts

CHI?

?

Nain

## Siaradwch

Lle dach chi'n hoffi mynd ar wyliau?  
 Lle oeddech chi'n mynd ar wyliau cyn cael plant?  
 Lle dach chi isio mynd nesa?

## Gêm – Llongau rhyfel (*Battleships*)

Dewiswch 4 blwch (box) a gofynnwch gwestiynau i'ch partner chi am wythnos diwetha, e.e.

**mynd i barti – Aethoch chi i barti wythnos diwetha?**

mynd i'r traeth	darllen stori	mynd i'r amgueddfa	gwyliau Cyw
coginio efo'r plant	plannu blodau	gwneud celf a chrefft	mynd am dro
mynd i'r sinema	chwarae yn y parc	dawnsio yn y gegin	bwyta sglodion

## Sgwrs 2

**Plentyn:** Be dan ni'n neud heddiw?

felly, i glirio dy ystafell di.

**Rhiant:** Siopa.

**Plentyn:** lawn, dim problem!

**Plentyn:** O na! Dw i'n casáu siopa!  
Mae siopa'n ddiflas.

**Rhiant:** Ond o, bechod. Fyddi di  
ddim yn medru edrych o  
gwmpas Teganau Tanwen  
efo Llŷr a fi, ond dyna ni...

**Plentyn:** Siopa bwyd! Ofnadwy!

**Plentyn:** Teganau Tanwen? Dw i  
wrth fy modd efo Teganau  
Tanwen! Ga i ddwad?

**Rhiant:** Rwyti'n medru eistedd yn y  
troli. Rwyti ti'n licio eistedd yn  
y troli.

**Rhiant:** Cei, wrth gwrs. Ac os wyt ti'n  
blentyn da, ella byddwn ni'n  
mynd i'r caffi i gael cacen  
hefyd.

**Plentyn:** Dw i'n bump oed rŵan! Dim  
babu dw i. Dw i ddim isio  
eistedd yn y troli.

**Plentyn:** O waw! lawn, dw i'n mynd i  
wisgo rŵan.

**Rhiant:** lawn. Mi fyddi di'n aros adre

## Dw i'n nabod rhywun sy'n ...

### Geirfa

briwsionyn (briwsion) – *crumb(s)*

paced(i) – *packet(s)*

celwydd(au) – *lie(s)*

fflysio – *to flush*

gofalu am – *to care for, to look after*

Dw i wedi cael llond bol – *I'm fed up*

yn bendant – *definitely*

mwdlyd – *muddy*

rhydd – *free*

## Syniad da! – Podlediadau Cymraeg – Y POD

As well as being very entertaining, podlediadau (podcasts) are a great way to learn about different topics at a time that suits you – whether you're doing the smwddio, mynd am dro or codi'r plant o'r ysgol. You can also practise your Cymraeg with a podlediad Cymraeg! Many have been designed especially for dysgwyr Cymraeg. To find a podlediad to suit you, visit:

[Y Pod - Podlediadau i Ddysgwyr - Podcasts for Welsh Learners](#)



## Cân - Llwynog Coch Sy'n Cysgu

Llwynog coch sy'n cysgu,  
Llwynog coch sy'n cysgu,  
Llwynog coch sy'n cysgu  
ar y ddôl.

Pwy sy'n mynd i weled X3

Llygaid coch yn agor X3  
ar y ddôl.

Llwynog coch yn deffro X3  
ar y ddôl.



[Caru Canu | Llwynog Coch Sy'n Cysgu \(Welsh Children's Song\) - YouTube](#)

## Sgwrs 1

**Rhiant 1:** Hei! Does 'na ddim   
ar ôl! Pwy sy wedi bwyta'r   
i gyd?

**Gwenno:** Dim fi! Dw i wedi bod yn chwarae yn yr ardd.

**Rhiant 2:** Ro'n i isio bisged efo fy mhaned! O wel...

**Morgan:** Ych â fi, pwy sy ddim wedi fflysi'r ?

**Gwenno:** Dim fi! Dw i ddim wedi bod yn y  heddiw!

**Rhiant 2:** Wel does dim ots pwy – fflysia'r , Morgan!

**Rhiant 1:** Pwy sy wedi gadael 

yn y lolfa? Mae 'na friwsion   
dros y  i gyd hefyd...

**Gwenno:** Morgan! Mi weles i Morgan yn gorwedd ar y  efo'r paced .

**Morgan:** Paid â deud celwydd!

**Rhiant 1:** Pwy sy wedi cerdded trwy'r gegin yn gwisgo  mwdlyd?

**Morgan:** Gwenno!


**Gwenno:** Naci! Dim fi!

**Rhiant 2:** Reit, blant, dw i wedi cael llond bol. Dewch i dacluso – RŴAN!

**Edrychwr ar y lluniau a darllenwrch  
y disgrifiad o bob person. Wedyn,  
ysgrifennwrch yr enwau cywir ar y llinellau.**



**Meirion**  
Dw i'n coginio.  
Dw i'n llnau'r ty.  
Dw i'n smwddio dillad.



**Lyn**  
Dw i'n trwsio ceir.  
Dw i'n siarad efo  
cwsmeriaid ar y ffôn.  
Dw i'n newid teiars.

**Alwena**  
Dw i'n helpu plant  
i ddarllen.  
Dw i'n dysgu  
plant i wneud  
Mathemateg.  
Dw i'n marcio  
gwaith cartref.



**Mair**  
Dw i'n bwydo  
anifeiliaid.  
Dw i'n gyrru  
tractor.  
Dw i'n byw yn  
y wlad.

Pwy sy'n gweithio mewn ysgol? \_\_\_\_\_ sy'n gweithio mewn ysgol.

Pwy sy'n gweithio mewn garej? \_\_\_\_\_ sy'n gweithio mewn garej.

Pwy sy'n gofalu am y teulu? \_\_\_\_\_ sy'n gofalu am y teulu.

Pwy sy'n gweithio ar fferm? \_\_\_\_\_ sy'n gweithio ar fferm.

## Sgwrs 2

**Rhiant 1:** Ydy Nia isio dŵad i chwarae  
efo Lleucu wythnos yma?

**Rhiant 2:** O, yn bendant!

**Rhiant 1:** Pryd mae hi'n medru dŵad?

**Rhiant 2:** Hm... wel, mae hi'n chwarae  
tennis ar nos Lun ac yn  
nofio ar nos Fawrth.

**Rhiant 1:** Be am nos Fercher?

**Rhiant 2:** Na, mae hi'n cael gwersi  
dawnsio ar nos Fercher.  
Ond mae nos lau yn iawn.

**Rhiant 1:** O, mae gan Lleucu ymarfer  
pêl-droed ar nos lau.

**Rhiant 2:** Be am nos Wener felly?

**Rhiant 1:** Na, mae'n ddrwg gen i. Mae  
hi'n mynd i'r clwb drama ar

nos Wener.

**Rhiant 2:** Wel, mae ein plant ni'n  
brysur iawn!

**Rhiant 1:** Ydyn – rhy brysur!

**Rhiant 2:** Dw i wedi blino'n lân!

**Rhiant 1:** Rhaid i ni drefnu rhywbeth  
ar y penwythnos, felly. Be  
am ddydd Sadwrn?

**Rhiant 2:** Wel, mae Nia yn chwarae  
pêl-droed yn y bore ond  
mae hi'n rhydd yn y p'nawn.

**Rhiant 1:** Gwych, o'r diwedd! Dan ni'n  
medru trefnu rhywbeth!

**Rhiant 2:** P'nawn dydd Sadwrn  
amdani!

## Sgwrsio:

Pwy yn eich teulu chi sy'n coginio fel arfer?

Pwy yn eich teulu chi sy'n codi yn gynnar?

Pwy yn eich teulu chi sy'n mynd â'r biniau allan?

Pwy yn eich teulu chi sy'n hoffi edrych ar y teledu?

Pwy yn eich teulu chi sy'n gwneud llawer o chwaraeon?



## Mi faswn i'n hoffi

### Geirfa

**taten bob (tatws pob)**

– baked potato (baked potatoes)

**cwsg** – sleep

**pwynt(iau)** – point(s)

**archebu** – to order

**fforddio** – to afford

**llwgu** – to starve

**prydau parod** – ready meals

## Syniad da! – Defnyddio Busnesau Cymraeg

As you become more fluent in Cymraeg, ella basech chi'n hoffi gwybod am local businesses and institutions that can offer their services through the medium of Cymraeg. The website Lleol.net has a cyfeiriadur (directory) of Welsh services, so that you can ymarfer eich Cymraeg chi in your everyday life!


[Lleol.net: Y Cyfeiriadur Cymraeg, busnesau Cymraeg, mudiadau, sefydliadau, ysgolion, llety a mwy...](#)

## Cân – Suo gân

This beautiful Welsh lullaby has been sung by renowned singers such as Bryn Terfel in concert halls around the world, and also featured in Steven Spielberg's Oscar-winning film, Empire of the Sun. You can find many great interpretations of this song on YouTube.

Huna blentyn ar fy mynwes,  
Clyd a chynnes ydyw hon;  
Breichiau mam sy'n dynn amdanat,  
Cariad mam sy dan fy mron;  
Ni chaiff dim amharu'th gyntun,  
Ni wna undyn â thi gam;  
Huna'n dawel, annwyl blentyn,  
Huna'n fwyn ar fron dy fam.

*Sleep child on my bosom,  
It is cosy and warm;  
Mother's arms are tight around you,  
Mother's love is in my breast;  
Nothing shall disturb your sleep,  
No-one will do you harm;  
Sleep quietly, dear child,  
Sleep gently on your mother's breast.*





## Gwrando

Mi fyddwch chi'n gwrando ar raglen radio. Mae'r cyflwynydd yn siarad efo staff a rhieni Cylch Meithrin Glanwlpan. Gwrandewch yn ofalus a llenwch y bylchau.

Catrin dw i. Mae gen i \_\_\_\_\_ o blant bach. Mi faswn i'n licio

Geraint dw i. Rhaid i mi fynd â'r \_\_\_\_\_ cyn mynd i'r gwaith.

Mi faswn i'n hoffi \_\_\_\_\_.

Lois dw i. Dw i'n gweithio yn y \_\_\_\_\_. Mi faswn i'n hoffi  
\_\_\_\_\_!

Rhys dw i. Mi faswn i'n hoffi \_\_\_\_\_. Dw i isio

Nia dw i. Dw i isio help i \_\_\_\_\_. Mi faswn i'n hoffi

# Siaradwch

Be fasai'n gwneud eich bywyd chi'n well?

## Sgwrs - Yn y caffi

**Plentyn:** Dw i isio bwyd! Dw i'n llwgu!

**Rhiant:** Dw i'n gwybod! Wel, edrycha ar y fwydlen yma. Be wyt ti isio? Faset ti'n licio brechdan ham?

**Plentyn:** Mi fasai'n well gen i gael pizza.

**Rhiant:** Does 'na ddim pizza ar y fwydlen. Faset ti'n licio taten bob efo rhywbeth?

**Plentyn:** Mi fasai'n well gen i sglodion.

**Rhiant:** Does 'na ddim sglodion ar y fwydlen chwaith. Dim ond brechdanau, salad a thatws pob.

**Plentyn:** Dw i ddim isio dim byd, felly.

**Rhiant:** Ond rwyt ti'n llwgu!

**Plentyn:** Dw i ddim yn licio brechdanau a dw i ddim yn licio tatws pob, a dw i'n bendant ddim yn licio salad. Mi fasai'n well gen i fynd i gaffi arall.

**Rhiant:** Na, dan ni'n aros fama. Dw i isio bwyd. Rhaid i ti eistedd fama yn ddistaw. Dw i'n mynd i gael coffi a brechdan ham.

**Plentyn:** Hm. lawn, wel, mi fasai brechdan ham yn iawn. Ond rhaid i mi gael bara gwyn, a dim salad.

**Rhiant:** lawn, iawn, dw i'n gwybod. Mi fydda i'n archebu bwyd i ni rwan.

## Ymarfer

### Efo'ch partner, cysylltwch y brawddegau cywir.

Mae Alun wedi colli'r bws eto.

Mae Mari yn mynd i briodas cyn bo hir.

Mae Claire yn mynd i gael efeilliaid.

Does 'na ddim byd ar y teledu heno.

Mae John a Ceri wedi blino'n lân.

Does 'na ddim bwyd yn y tŷ.

Mi fasai hi'n hoffi ffrog newydd.

Mi fasen nhw'n hoffi mynd ar wyliau.

Mi fasai fo'n hoffi cael car.

Mi faswn i'n hoffi cael têc-awê.

Mi fasai hi'n hoffi cael tŷ mwy.

Mi faswn i'n hoffi mynd i'r sinema.

## Siaradwch

Lle yng Nghymru faset ti'n hoffi mynd â'r plant?

Lle yn Llundain/Lloegr faset ti'n hoffi mynd â'r plant?

Lle yn Ewrop faset ti'n hoffi mynd â'r plant?

Lle yn y byd faset ti'n hoffi mynd â'r plant?

## Taswn i'n medru...

### Geirfa

**mellten (mellt)** – *lightning*

**archarwr (archarwyr)** – *superhero(es)*

**cawr (cewri)** – *giant(s)*

**clogyn (clogynnau)** – *cloak(s)*

**mwgwd (mygydau)** – *mask(s)*

**pŵer (pwerau)** – *power(s)*

## Syniad da! – Y Siarter Iaith

If your child is in primary school, you have probably heard of Y Siarter Iaith - The Welsh Language Charter. The aim of this Welsh Government project is to encourage plant to use Cymraeg socially amser chwarae, adre ac yn y dosbarth:  
[Welsh Language Charter | GOV.WALES](https://gov.wales/welsh-language-charter)

As part of y Siarter, each individual school completes a baseline exercise to determine current language use before developing an action plan to work towards a bronze, silver or gold award. It encourages participation from every member of the school community - pupils, parents, carers, school governors and the local community.

You can read more about the Siarter Iaith on your school's website, or speak to your child's athro / athrawes to find out how you can support Siarter Iaith activites and develop the use of Cymraeg gyda'r teulu.



## Cân – Seren a Sbarc

The archarwyr in the Siarter Iaith scheme, Seren a Sbarc, have a special song written by Candelas frontman, Osian Williams. Gwyliwch y fideo ar YouTube: [Seren a Sbarc - YouTube](https://www.youtube.com/watch?v=KJLjyfzXWUo)



Ein harwyr, diolch am eich chwerthin  
A diolch am eich gwaith,  
Cawn ddathlu gyda'n gilydd yn Gymraeg,  
Gyda'n gilydd yn Gymraeg.

Our heroes, thank you for your laughter  
And thank you for your work,  
We can celebrate together in Welsh,  
Together in Welsh.

## Sgwrs 1

**Twm:** Gwenno, taset ti'n archarwr, be fasai dy bŵer di?

**Gwenno:** Hmm... taswn i'n archarwr, mi faswn i'n medru hedfan yn gyflym a gwneud trydan. Be faset ti'n medru neud?

**Twm:** Mi faswn i'n gryf ac yn fawr iawn. Mi faswn i'n medru symud pethau mawr, fel ceir a lorïau. Be fasai dy enw di?

**Gwenno:** Mellten. A ti?

**Twm:** Cawr Mawr. Be fasai dy wisg di?

**Gwenno:** Dw i ddim yn siŵr ... clogyn a mwgrwd arian, ella.

**Twm:** Mi faswn i'n gwisgo dillad coch a glas, fel Superman.

**Gwenno:** O, mi faswn i'n licio bod yn archarwr. Be am chwarae archarwyr rŵan?

**Twm:** Syniad da!

**Gwenno:** lawn – Cawr Mawr! Tyrd! Mae pobl isio help. Mae 'na drafferth yn y dref. Rhaid i ni fynd!

**Twm:** Ffwrdd â ni!

Llenwch y tabl ac wedyn deudwch frawddegau am Mellten a Cawr Mawr.

Mellten



Cawr Mawr



Pŵer

Gwisg

## Sgwrs 2

Darllenwch y sgwrs yma efo'ch partner. Wedyn, *change the words that have been underlined.*

**Eryl:** Haia Al, sut wyt ti?

**Al:** Iawn diolch, ond prysur!

**Eryl:** Dw i'n siŵr! Sut mae'r efeilliaid?

**Al:** Maen nhw'n tyfu'n gyflym! Mi fyddan nhw'n mynd i'r ysgol drwy'r dydd ar ôl y Nadolig.

**Eryl:** Da iawn. Wel, dyna pam dw i'n ffonio a deud y gwir. Dan ni'n chwilio am berson i weithio'n rhan amser yn y siop. Ro'n i'n meddwl ella baset ti'n medru gweithio rŵan. Rwyd ti'n dda iawn efo pobl. Mi faset ti'n help mawr i ni!

**Al:** Diolch yn fawr am ofyn, Eryl. Mi faswn i'n hoffi gweithio pan mae'r plant yn yr ysgol. Taswn i'n medru dechrau ar ôl hanner awr wedi naw, a gorffen cyn tri, mi fasai hynny'n berffaith.

**Eryl:** Ardderchog!

**Al:** Ond mae un peth ... mi fydda i'n medru gweithio am dri mis, ond dim mwya.

**Eryl:** O? Pam? Wyt ti wedi cael swydd yn rhywle arall?

**Al:** Naddo ... dw i'n cael babi arall!

**Eryl:** Waw, llonyfarchiadau! Dim problem. Mae tri mis yn well na dim! Faset ti'n medru dŵad i'r siop i gael sgwrs wythnos nesaf? Dydd Llun? Deg o'r gloch?

**Al:** Wrth gwrs.

**Eryl:** Da iawn. Mi fydd 'na baned yn barod i ti.

**Al:** Diolch Eryl – Hwyl!

**Eryl:** Hwyl!



# Geirfa - diddordebau

Yn eich grwpiau, defnyddiwch y cliwiau i ddŵad o hyd i eirfa ar thema **diddordebau**. Mae **dd, ff, ng, ll, ph, rh a th** yn un llythyren.

1. Dach chi'n medru gwneud hyn ar-lein neu wyneb-yn-wyneb. Ond rhaid i chi gael digon o bres!

S \_ \_ \_ \_

2. Gwneud bwyd. \_ \_ \_ \_ \_

3. Dach chi'n medru gwyllo \_ \_ \_ \_ \_ ar y teledu, neu dach chi'n medru gwneud \_ \_ \_ \_ \_ i gadw'n heini.

4. Tyfu blodau a llysiau. \_ \_ \_ \_ \_

5. Mae pobol yn actio ar y llwyfan yn y lle yma. \_ \_ \_ \_

6. Dach chi'n gwneud hyn mewn dŵr. \_ \_ \_ \_

7. Pobol a digwyddiadau (*events*) amser maith yn ôl. \_ \_ \_ \_

8. Dach chi'n mynd i'r lle yma i weld ffilm.

\_ \_ \_ \_ \_



## Siaradwch

Be fasech chi'n wneud tasai gynnoch chi benwythnos rhydd heb y plant?

Lle fasech chi'n hoffi mynd efo'r plant tasech chi'n ennill y loteri?



## Mi ges i fy ngeni

### Geirfa

**bydwraig (bydwragedd) – midwife  
(midwives)**

**llawdriniaeth(au) – operation(s)**

**pwll glo – coalmine**

**ailddechrau – to restart**

**hanner amser – half time**

**mor hen â hynny – as old as that**

**Oes Fictoria – The Victorian Age**

## Syniad da! – Cyrsiau Preswyl / Penwythnos (Residential or weekend courses).

If you feel that you need to catch up with your children's Cymraeg, or that you'd like a bit of a hwb (boost) to become fluent faster, why not enrol on a cwrs preswyl or a cwrs penwythnos? Courses of varying lengths are held at Nant Gwrtheyrn all year: [Learn Welsh Language Courses, Residential, Intensive \(nantgwrtheyrn.org\)](http://LearnWelshLanguageCourses.Residential.Intensive(nantgwrtheyrn.org)) Weekend courses are also arranged by many Dysgu Cymraeg providers, including Cymraeg i'r Teulu in Llangrannog, which combines lessons with exciting outdoor activities for the whole family. If you'd rather stay at home, ask your tiwtor about online courses and Sadyrnau Siarad in your local area or visit the Dysgu Cymraeg website: [A photograph showing several people in a room with wooden floors and white walls. They are seated around rectangular wooden tables, facing each other in pairs or small groups, suggesting a conversational or interactive learning environment. In the background, there is a colorful tapestry on a wall and some windows. The overall atmosphere appears to be a classroom or community center setting.](http://Croeso>Welcome | Learn Welsh Ewch amdani!</a></p>
</div>
<div data-bbox=)



## Cân – Amser tacluso yw hi nawr

(Sung to the tune of *London Bridge is Falling Down*).

Ydy eich plentyn chi'n mynd i Gylch Meithrin, meithrinfa neu ysgol Gymraeg?  
*If so, you might have heard this song before! It's a great way of getting children to tidy up. Maybe it will work at home too!*

Amser tacluso yw hi nawr,  
yw hi nawr X2  
Amser tacluso yw hi nawr,  
Dewch i helpu

*It's time to tidy up now,  
Come to help.*

## Sgwrs 1 - Hanner amser wrth y cae pêl-droed

**Marged:** Mae Osian yn chwarae'n dda heddiw.

**Wil:** Ydy, chwarae teg!

**Marged:** Mae o'n dal iawn! Mae o'n berffaith i chwarae yn y gôl!

**Wil:** Ydy! Ond roedd o'n fabi bach iawn.

**Marged:** Oedd o?

**Wil:** Oedd. Roedd fy mhartner yn sâl felly mi gaeth o ei eni'n gynnar. Roedd o'n dri deg pump wythnos pan gaeth o ei eni.

**Marged:** Tri deg pump wythnos! Oedd o'n iawn?

**Wil:** Wel, mi gaethon ni amser anodd. Roedd rhaid iddo fo aros yn yr ysbty yn Wrecsam am wyth wythnos. Ond roedd staff yr ysbty yn wych ac mae pob dim yn iawn rŵan.

**Marged:** Mae o'n edrych yn dda iawn!

**Wil:** Mae o'n bwyta popeth! Be am Rhodri? Lle gaeth o ei eni?

**Marged:** Mi gaeth o ei eni adre. Mi ddaeth y fydwraig i'r tŷ. Roedden ni'n

Iwcus iawn. Doedd 'na ddim problemau – mi gaeth o ei eni mewn awr.

**Wil:** Waw – cyflym iawn. Be am ei chwaer fach o? Gaeth hi ei geni adre hefyd?

**Marged:** Naddo. Roedd pethau'n wahanol iawn efo Bronwen. Mi gaeth hi ei geni yn yr ysbty. Roedd rhaid i mi gael llawdriniaeth. Ond mae hi'n iawn hefyd, diolch byth! Sgynnoch chi fwy o blant?

**Wil:** Oes. Doedd fy mhartner ddim yn medru cael mwy o blant felly dan ni wedi mabwysiadu hogyn bach o'r enw Jac. Mae o'n ddwy oed.

**Marged:** Jac - enw hyfryd. Ydy o'n hoffi chwarae pêl-droed hefyd?

**Wil:** O, ydy. Mae o'n licio pob dim mae Osian yn neud! Mae o wrth ei fodd efo'i frawd mawr o!


**Marged:** Dyna neis. Yn anffodus, mae Rhodri a Bronwen fel ci a chath!

**Wil:** Ro'n i'n ffraeo efo fy chwaer i pan o'n i'n blentyn. Ond, dan ni'n ffrindiau mawr rŵan.

**Marged:** Gobeithio bydd Rhodri a Bronwen yn ffrindiau hefyd!

**Wil:** Mi fyddan nhw'n iawn, dw i'n siŵr. O, mae'r gêm yn ailddechrau. Wela i di wedyn! Hwyl, Marged!


**Marged:** Hwyl, Wil!



**Ar ôl darllen y ddeialog, gweithiwch efo'ch partner i ymateb i'r datganiadau (*respond to the statements*). Cytunwch neu anghytunwch (*agree or disagree*) mewn brawddegau llawn (*in full sentences*).**

Er enghraifft: Roedd Osian yn fabi mawr. Nac oedd, roedd o'n fabi bach.

- Mi gaeth Osian ei eni mewn tri deg pump awr.
- Mi gaeth Osian ei eni adre.
- Mi gaeth Rhodri ei eni mewn ysbyty.
- Mi gaeth Bronwen ei geni adre.
- Brawd Wil ydy Jac.
- Sgan Bronwen ddim chwaer.
- Dydy Jac ddim yn hoffi pêl-droed.
- Mae Rhodri a Bronwen yn ffrindiau.



## Sgwrs 2

**Darllenwch y sgwrs efo'ch partner. Wedyn, newidiwch y geiriau sydd wedi'u tanlinellu.**

**Elin:** Nain, dw i'n gwneud prosiect am y teulu yn yr ysgol. Ga i ofyn cwestiynau i ti?

**Nain:** Wrth gwrs.

**Elin:** Yn gyntaf, lle **gest ti dy eni**?

**Nain:** Mi ges i fy ngeni yn South Shields.

**Elin:** Lle mae South Shields?

**Nain:** Yn Lloegr.

**Elin:** Ond **rwyt ti'n** siarad Cymraeg...

**Nain:** Ydw, achos mi wnaethon ni symud i Gymru pan o'n i'n ddwy oed. Mi gaeth fy nhad waith mewn chwarel. Felly, mi ges i fy magu yng Nghymru, mewn pentref wrth ymyl Bethesda.

Roedd pawb yn siarad Cymraeg yn y pentref.

**Elin:** Pryd **gest ti dy eni**?

**Nain:** Mi ges i fy ngeni yn 1955.

**Elin:** 1955? Waw! **Rwyt ti'n** hen iawn, iawn felly. **Wyt ti'n** cofio'r Frenhines Fictoria? Dan ni wedi dysgu am Oes Fictoria yn yr ysgol.

**Nain:** Nac ydw wir! Dw i ddim mor hen â hynny! A dw i ddim yn teimlo'n hen chwaith.

**Elin:** **Dwyt ti ddim** yn edrych yn hen, Nain. Dw i'n hoffi **dy wallt pinc di**.

**Nain:** Diolch yn fawr, Elin fach. **Rwyt ti'n** helpu Nain i aros yn ifanc.

## Tasg

Some children use **chi** rather than **ti** with their grandparents as a sign of respect. Nawr, change the words in bold so that Elin uses **chi** with Nain.

## Y Teulu Smith



Craig

Geni: 1985, Belfast  
Magu: Dulyn  
Byw rŵan: Aberdaron



Aled

Geni: 1983, Caerdydd  
Magu: Abertawe  
Byw rŵan: Aberdaron



Mari

Geni: 2019, Caernarfon  
Byw rŵan: Aberdaron



Mia

Geni: 2021, Caernarfon  
Byw rŵan: Aberdaron



Mot a Wil

Geni: 2015, Aberystwyth  
Byw rŵan: Aberdaron

Edrychwch ar y ffeithiau am y teulu Smith, ac ysgrifennwch frawddegau llawn (*full sentences*) am bawb. Dyma'r un cyntaf i chi:

**Craig:** Mi gaeth Craig ei eni yn Belfast yn 1985. Mi gaeth o ei fagu yn Nulyn. Mae o'n byw yn Aberdaron rŵan.



**Aled:** .....

**Mari:** .....

**Mia:** .....

**Mot a Wil:** .....

## Adolygu ac Ymestyn

### Geirfa

**arth (eirth) – bear(s)**

**bwgan(od) brain – scarecrow(s)**

**llanast – mess**

**blasu – to taste**

**cysgu'n drwm – sleeping heavily**

**peintio wynebau – face painting**

**busneslyd – nosy**

**caled – hard**

**canolig – medium**

**hallt – salty**

**meddal – soft**

**melys – sweet**

## Syniad da! – Gwyliau Cymraeg

\* ‘Gwyliau’ means ‘festivals’ as well as ‘holidays’ yn Gymraeg.

We looked at the Eisteddfod in the Mynediad course, but many smaller gwyliau Cymraeg are held all over Wales during the summer months, such as Tafwyl (Caerdydd), Sesiwn Fawr Dolgellau (Gogledd Orllewin Cymru), Gŵyl Rhuthun (Gogledd Ddwyrain Cymru) Tregaroc (Tregaron, Ceredigion).

As well as showcasing cerddoriaeth Gymraeg, there are usually many events for children and families. You could also volunteer at an event, which would be a great opportunity to practise your Cymraeg, make new friends and get involved with your community. Contact your local Menter Iaith and listen to Radio Cymru to find out what's going on in your area.



## Cân - Y Bwgan Brain (The Scarecrow)

Dwy fraich ar led  
Cetyn yn ei geg  
Trwyn hir a main  
Dyma'r bwgan brain

Het ddu tad-cu  
Siaced goch mam-gu  
Trwyn hir a main  
Dyma'r bwgan brain

*hawlfraint Falyri Jenkins*

*Two arms wide open  
Pipe in his mouth  
Long and pointy nose  
This is the scarecrow*

*Grandad's black hat  
Grandma's red coat  
Long and pointy nose  
This is the scarecrow*

*copyright Falyri Jenkins*

*This song is a great song to sing with plant bach as it's an opportunity for role play and helps children to remember parts of the body yn Gymraeg.*

*Here is the Caru Canu version, as well as a lively performance by a Cylch Meithrin!*

[Caru Canu | Bwgan Brain \(Welsh Children's Song\) - YouTube](#)  
[Bwgan Brain - YouTube](#)



## Siaradwch

**Taflwch y dis and choose one of the questions next to the corresponding number.**

1	Lle gaeth eich plant chi eu geni?	Efo pwysach chi'n siarad Cymraeg?	Oeddech chi'n dysgu'r plant adre yn y cyfnod clo?
2	Be sy'n well gynnoch chi, mynd i'r parc neu'r ganolfan chwarae meddal?	Sgynnoch chi anifail anwes?	Oeddech chi'n mynd i ddosbarth cyn-geni ( <i>ante natal</i> ) cyn i chi gael y plant?
3	Dach chi'n yfed mwy o goffiers cael y plant?	Be sy ar y teledu nos Sadwrn yn eich tŷ chi?	Fasech chi'n hoffi gwyliau yn Disneyland?
4	Faint o'r gloch mae'r plant yn mynd i'r gwely?	Ydy'r plant yn mynd i glybiau ar ôl ysgol?	Lle dach chi'n hoffi mynd am dro efo'r teulu?
5	Dach chi'n hoffi canu?	Ydy'r plant yn hoffi coginio?	Tasech chi'n cael cynnig i fyw dramor, fasech chi'n mynd?
6	Fasech chi'n hoffi cael fan wersylla (campervan)?	Pwy ydy athro / athrawes eich plentyn chi?	Faint o'r gloch dach chi'n codi yn y bore, a faint o'r gloch fasech chi'n hoffi codi?

## Sgwrs

**Ceri:** Helo Mel, Ceri yma. Sut wyt ti?

**Mel:** lawn diolch. A ti?

**Ceri:** Grêt! Gwranda: wyt ti wedi clywed am Wyl y Dref?

**Mel:** Naddo, be ydy Gŵyl y Dref?

**Ceri:** Gŵyl fawr ym mharc y dref ydy hi, efo llawer o stondinau gwahanol. Mae'n digwydd dydd Sadwrn yma. Mi fydd 'na fandiau Cymraeg yn chwarae ar y llwyfan ac mi fydd 'na fwyd neis a bar yno hefyd. Mi fyddi di'n medru siarad Cymraeg drwy'r dydd!

**Mel:** Mae'n swnio'n wych! Dw i isio ymarfer siarad Cymraeg. Ond mae Lyn yn gweithio dydd Sadwrn felly mi fydd y plant efo fi.

**Ceri:** Dim problem! Mi fydd 'na lawer o bethau i blant yno – chwaraeon, canu, gemau, celf a chreffft, peintio wynebau, Disgo Mistar Urdd ...

**Mel:** Mistar Urdd? Mae Hedd yn caru Mistar Urdd!

**Ceri:** Da iawn! Mae 'na babell chwarae i blant bach hefyd, efo lle i newid clytiau.

**Mel:** O gwych! Mi fydd y babi'n iawn, felly. Faint o'r gloch mae'n dechrau?

**Ceri:** Hanner awr wedi deg tan naw o'r gloch y nos. Mae pob dim ar wefan y Fenter Iaith. Dan ni'n mynd i gerdded i'r dref – wyt ti a'r plant isio cerdded efo ni?

**Mel:** Mi fasai hynny'n grêt. Does 'na ddim llawer o le i barcio yn ymyl y parc. Diolch!

**Ceri:** Mi wela i di bore dydd Sadwrn felly. Cofia'r eli haul ... a'r cotiau glaw!

**Mel:** Wrth gwrs – mae'r tywydd yn ofnadwy ar hyn o bryd. Diolch, Ceri. Hwyl!

**Ceri:** Hwyl!

## Stori

**Edrychwrh ar y geiriau yn y cwmwl.**

**Be ydy'r stori yma?**

Rŵan, gwrandewch ar y stori.

Y tro cyntaf, gwrandewch am y geiriau yma:

**oeri      busneslyd      rhy felys      rhy hallt**  
**mawr      canolig      bach**



Wedyn, darllenwch y brawddegau a ticiwch **cywir** neu **anghywir**.

Roedd y tair arth yn byw mewn bwthlyn.

cywir  anghywir

Roedd y tair arth yn hoffi bwyta tost a jam i frecwast.

cywir  anghywir

Un bore, mi aethon nhw am dro cyn iddyn nhw fwyta brecwast.

cywir  anghywir

Roedd cadair Dadi Arth yn rhy feddal i Elen Benfelen.

cywir  anghywir

Roedd uwdd Mami Arth yn rhy felys i Elen Benfelen.

cywir  anghywir

Roedd gwely Babi Arth yn rhy galed i Elen Benfelen.

cywir  anghywir

Roedd y tair arth yn hoffi Elen Benfelen.

cywir  anghywir

Mi fydd Elen Benfelen yn mynd i weld y tair arth eto.

cywir  anghywir

## Siaradwch

Efo'ch partner, deudwch beth sy'n digwydd yn y lluniau yma.



## Siaradwch

Dach chi'n hoffi darllen efo'ch plant chi?

Pa lyfr oeddech chi'n hoffi pan oeddech  
chi'n blentyn?

Sgynnoch chi amser i ddarllen  
rŵan?



## Dw i'n meddwl bod

### Geirfa

**teimlad(au)** – *feeling(s)*

**ymladd** – *to fight, fighting*

**dewr** – *brave*


**lleol** – *local*

**llym** – *strict*

**teg** – *fair*

## Syniad da! – Dyddiadur Cymraeg

Over the past few years, there has been a rise in the popularity of keeping a diary or journal as a means of making sense of an ever-changing world and maintaining good mental health. If this is part of your daily routine, why not try to ysgrifennu a few sentences yn Gymraeg? You could start by listing the pethau da about your day, or just a few words about your teimladau (feelings). As your Cymraeg improves, you might be able to write your whole entries yn Gymraeg.



## Cân - Y Gwcw Lon (The Happy Cuckoo)

*This cân is often sung around campfires at Urdd camps and tripiau ysgol. Your child may know the finger-clicking movements! This is the Cwm-Rhyd-y-Rhosyn version, sung by Dafydd Iwan ac Edward Morris Jones.*

[Y Gwcw - YouTube](#)

Wrth ddychwel tuag adref, mi glywais gwcw lon  
Oedd newydd groesi'r moroedd i'r ynys fechan hon.

*While returning home, I heard a happy cuckoo  
That had just crossed the seas to this small island.*

Cytgan:

Holiacici a holiacwcw,  
Holiacici a holiacwcw,  
Holiacici a holiacwcw,  
Holiacici a hoi



## Sgwrs 1

**Plentyn 1:** Gawn ni wyllo rhywbeth ar y teledu, Mam?

**Mam:** lawn, be dach chi isio?

**Plentyn 2:** Spiderman.

**Mam:** Dach chi'n rhy ifanc i wyllo Spiderman. Be am Peppa?

**Plentyn 1:** Ia, dw i'n caru Peppa!

**Plentyn 2:** Wel dw i'n meddwl bod hi'n rhaglen ddiflas. Rhaglen i fabis ydy Peppa.

**Plentyn 1:** Naci! Dw i'n caru Peppa, a George!

**Plentyn 2:** Wel dw i'n licio rhaglenni i blant mawr efo llawer o gwffio.

**Plentyn 1:** Be am Patrôl Pawennau?  
Dw i'n meddwl bod y cŵn i gyd yn ddoniol. Ond Dyfri ydy'r gorau. Dw i'n meddwl fod o'n ddewr iawn.

**Plentyn 2:** Na na na, dim Patrôl Pawennau. Dw i'n meddwl bod hi'n rhaglen wirion.

**Mam:** Mi wnest ti wyllo Patrôl Pawennau ddoe! Roeddet ti'n mwynhau!

**Plentyn 2:** Dw i ddim yn hoffi Patrôl Pawennau heddiw.

**Mam:** Be am Deian a Loli? Plant mawr ydy Deian a Loli.

**Plentyn 1:** Ia! Deian a Loli!

**Plentyn 2:** Hmmm. lawn. Ond rhaid i ni wyllo'r un efo'r brenin drwg yn y castell Lego...

**Mam:** lawn, iawn, wrth gwrs. Mi fydda i'n rhoi Deian a Loli ar y teledu rŵan. Wedyn, dw i'n mynd i gael paned o'r diwedd!

## Tasgau

1. Efo'ch partner, edrychwch ar bedair llinell gyntaf (*first four lines*) y sgwrs and change it so that Mam is talking to only one child (use 'ti' instead of 'chi').
2. Without looking back at the sgwrs, join these lines using bod.

Er enghraifft:

Dw i'n meddwl

Mae hi'n rhaglen ddiflas      Dw i'n meddwl bod hi'n rhaglen ddiflas

Dw i'n meddwl

Mae'r cŵn i gyd yn ddoniol ..... .

Dw i'n meddwl

Mae o'n ddewr iawn .....

Dw i'n meddwl

Mae hi'n rhaglen wirion .....

## Darllen

Mae Cyngor Sir Glanwlpan wedi gofyn i rieni ysgrifennu paragraff am athrawon eu plant nhw. Dyma un paragraff am Mr Williams. Mae o'n athro yn Ysgol y Dref.

**Efo'ch partner, darllenwch y darn yma'n uchel.**

Dw i'n meddwl bod Mr Williams yn athro arbennig.



Dw i'n meddwl fod o'n gwneud gwaith diddorol efo'r dosbarth. Mae'r plant yn gwneud llawer o waith tu allan ac mae pob diwrnod yn wahanol. Mae Mr Williams yn dysgu llawer o hanes lleol i'r plant. Dw i'n meddwl fod o'n dysgu Mathemateg yn dda hefyd. Roedd fy merch i'n casáu Mathemateg ond mae hi'n hoffi Mathemateg rŵan! Mae Mr Williams yn eitha llym, ond dw i'n meddwl fod o'n deg bob amser. Mae fy merch yn hapus iawn yn ei ddosbarth o. Maen nhw'n cael llawer o hwyl ac mae hi'n meddwl bod Mr Williams yn ddoniol iawn.

**Rŵan, Miss Williams ydy'r athrawes. Newidiwch 'fod o' i 'bod hi' ac yn y blaen.**

Dw i'n meddwl bod Miss Williams yn athrawes arbennig ...

**Wedyn, Mr Davies a Mrs George ydy'r athrawon. Defnyddiwch 'nhw' yn y darn rŵan.**

Dw i'n meddwl bod Mr Davies a Mrs George yn athrawon arbennig ...



**Siaradwch am y lluniau uchod gan ddefnyddio (using) 'Dw i'n meddwl bod'.**  
**Er enghraift,**

Dw i'n meddwl bod ffilmiau Disney yn ardderchog. Dan ni'n hoffi gwyllo ffilmiau Disney.  
Mae'r caneuon yn dda iawn ...

## Arddodiaid (Prepositions)

### Geirfa

Aelod o'r Senedd – Member of the Senedd (Cymru)

Aelod Seneddol – Member of Parliament

cynghorydd (cynghorwyr) – councillor(s)

newyddion drwg – bad news

yn union – exactly

## Syniad da! – Ysgrifennu llythyr neu e-bost

Yn Uned 8, dach chi'n dysgu am ysgrifennu at bobol. Felly, be am ysgrifennu llythyr neu e-bost yn Gymraeg? *The next time you respond to an email or letter from your child's ysgol or cylch meithrin, why not try writing in Welsh? Don't worry about making mistakes – the teacher or carer will be really pleased that you're making an effort, even if it's just a few sentences. You could also practise writing a bit of Welsh to a fellow dysgwyr from your class, or even the local Papur Bro or Cylchgrawn Lingo!*



## Cân - Deio i Dywyn

Mi dderbyniais bwt o lythyr,  
*Tra la la la la la la la, tra la la*  
 Oddi wrth Mistar Jones o'r Brithdir,  
*Tra la la la la la la la, tra la la la*  
 Ac yn hwnnw roedd o'n gofyn,  
*Tra la la la la, tra la la la*  
 Awn i hefo Deio i Dywyn.  
*Tra la la la la la, tra la la la la*

*I received a little letter,*

*From Mr Jones of Brithdir,*

*And in it he was asking,*

*Would I go with Deio to Tywyn.*

*This popular folk song has been sung by many school choirs and famous artists such as Ar Log and Cerys Matthews. It tells the story of two friends travelling to Tywyn, Meirionnydd and their stops (and various meals!) along the way. Here are two different versions for you to enjoy:*

[Parti Ysgol Brithdir - Wrth Fynd efo Deio i Dywyn - YouTube](#)



[Cerys Matthews - Deio i Dywyn \(Live\) - YouTube](#)

## Sgwrs 1

**Sam:** Wyt ti wedi clywed y newyddion?

chwarae tu allan. Mi fydd Megan yn chwarae ar y cyfrifiadur drwy'r amser!

**Gwen:** Y newyddion? Naddo. Dw i ddim wedi gwrando ar y radio heddiw. Dw i ddim wedi edrych ar fy ffôn chwaith.

**Sam:** Rhaid i ni wneud rhywbeth. Dw i'n mynd i sgwennu at Jeni Jones, y Cynghorydd.

**Sam:** Wel, mae 'na newyddion drwg am y parc. Mae'r Cyngor isio adeiladu fflatiau newydd yno.

**Gwen:** Syniad da. Dw i'n mynd i sgwennu hefyd.

**Gwen:** O na! Ofnadwy! Mae'r parc yn hyfryd. Lle fydd y plant yn medru chwarae wedyn?

**Sam:** Be am yr Aelod o'r Senedd a'r Aelod Seneddol?

**Sam:** Yn union! Mae Tesni a Glyn isio mynd i'r parc drwy'r amser. Maen nhw wrth eu boddau efo fo! Mae 'na bethau i blant bach a phlant mawr yno. Mae 'na le neis i'r rhieni eistedd hefyd.

**Gwen:** Rhaid i ni sgwennu atyn nhw hefyd.

**Gwen:** Heb y parc, fydd 'na ddim lle i

**Sam:** Yn bendant. Dw i'n medru rhoi neges ar grŵp WhatsApp rhieni Ysgol Glanwlpan.

**Gwen:** A dw i'n medru rhoi neges ar y grŵp Facebook. Rhaid i ni stopio'r cynllun yma!

**Darllenwch y sgwrs efo'ch partner. Wedyn – without looking back – llenwch y bylchau efo'r arddodiaid cywir. Remember to change the arddodiad if needed, for example 'arno fo' neu 'arni hi'.**

**Sam:** Wyt ti wedi clywed y newyddion?

**Gwen:** Y newyddion? Naddo. Dw i ddim wedi gwrando \_\_\_\_\_ y radio heddiw. Dw i ddim wedi edrych \_\_\_\_\_ fy ffôn chwaith.

**Sam:** Wel, mae 'na newyddion drwg \_\_\_\_\_ y parc. Mae'r Cyngor isio adeiladu fflatiau newydd yno.

**Gwen:** O na! Ofnadwy! Mae'r parc yn hyfryd. Lle fydd y plant yn medru chwarae wedyn?

**Sam:** Yn union! Mae Tesni a Glyn isio mynd i'r parc drwy'r amser. Maen nhw wrth eu boddau efo fo! Mae 'na bethau i blant bach a phlant mawr yno. Mae 'na le neis i'r rhieni eistedd hefyd.

**Gwen:** Heb y parc, fydd 'na ddim lle i chwarae tu allan. Mi fydd Megan yn chwarae \_\_\_\_\_ y cyfrifiadur drwy'r amser!

**Sam:** Rhaid \_\_\_\_\_ ni wneud rhywbeth. Dw i'n mynd i sgwennu \_\_\_\_\_ Jeni Jones, y Cynghorydd.

**Gwen:** Syniad da. Dw i'n mynd i sgwennu \_\_\_\_\_ hi hefyd.

**Sam:** Be \_\_\_\_\_ Aelod Senedd Cymru a'r Aelod Seneddol?

**Gwen:** Gwell i ni sgwennu \_\_\_\_\_ nhw hefyd.

**Sam:** Yn bendant. Dw i'n medru rhoi neges ar grŵp WhatsApp rhieni Ysgol Glanlpan.

**Gwen:** A dw i'n medru rhoi neges ar y grŵp Facebook. Rhaid i ni stopio'r cynllun yma!

## Siaradwch

Oes 'na barc yn eich tref / pentref chi?

Dach chi'n hoffi mynd i'r parc efo'r teulu?

Dach chi'n defnyddio grwpiau WhatsApp neu Facebook i siarad efo rhieni eraill?



## Cysylltwch (connect) y colofnau (columns) cywir.

Taswn i isio sbectol newydd	rhaid iddi hi aros adre.
Mae gynni hi'r ffliw felly	taset ti'n gwrandu ar Radio Cymru.
Dydy John ddim yma heddiw - mae	rhaid iddo fo fynd at y deintydd.
Be ydy enw'r Pennaeth?	mi faswn i'n mynd at yr optegydd.
Mi faset ti'n dysgu llawer o Gymraeg	gynno fo annwyd.
Mae gynno fo'r ddannodd felly	Dw i isio anfon llythyr ati hi.

## Sgwrs 2

**Lyn:** Eryl, ga i fynd am beint efo Rob dydd Sadwrn?

**Eryl:** Wel, rwyt ti'n mynd â Lisa at yr optegydd dydd Sadwrn. Wyt ti'n cofio? Dw i ddim yn medru mynd â hi. Dw i'n mynd â Mam i'r ysbyty.

**Lyn:** O ia. Bechod! Ro'n i isio edrych ar y rygbi efo Rob.

**Eryl:** Wel, faint o'r gloch mae awyntiad Lisa? Edrycha ar y calendr.

**Lyn:** Hmm... hanner awr wedi deg! Mae o yn y bore. Felly, mi fydda i'n medru mynd am beint. Mae'r gêm yn dechrau am ddua o'r gloch.

**Eryl:** Da iawn. Ond cofia – rhaid i ti yfed cwrw di-alcohol.

**Lyn:** O? Pam?

**Eryl:** Rhaid i ti roi lifft i fi nos Sadwrn. Dw i'n mynd i barti ymddeol Colin o'r gwaith. O, dw i'n edrych ymlaen ato fo!

**Lyn:** O ia. Mi wnes i anghofio. Lle mae'r parti?

**Eryl:** Gwesty Gwalia.

**Lyn:** Gwesty Gwalia? Mae o'n bell!

**Eryl:** Ydy. Ond paid â phoeni. Mi fydda i'n dŵad adre mewn tacsi. Mi fyddi di a Lisa'n cael noson hyfryd yn edrych ar Strictly Come Dancing.

**Lyn:** Byddwn. Dim problem, cariad. Ac mi fydda i'n mynd ar y trip rygbi penwythnos nesaf.

**Eryl:** O ia. Mi wnes i anghofio. Hmm.

Taflwch y dis i weld lle dach chi'n mynd, a phryd dach chi'n mynd.

Er enghraifft, *if you throw dau twice, you will answer like this:*

Partner 1: Lle wyt ti'n mynd yfory?

Partner 2: Dw i'n mynd at y deintydd.

Partner 1: Pryd wyt ti'n mynd ato fo?

Partner 2: Dw i'n mynd ato fo am un ar ddeg o'r gloch.

1



4



1

9:00

2

11:00

3

12:30

4

2:15


5

3:45

6

5:00


2



5



3



6



## Mwy o Arddodiaid!

### Geirfa

**cyfrinach(au)** – secret(s)

**sgwarnog(od)** – hare(s)

**milgi (milgwn)** – greyhound(s)

**sŵn (synau)** – noise(s)

**Goleuadau'r Gogledd**

– *The Northern Lights*

**Y Lapdir** – Lapland

**cenfigennus** – jealous

### Syniad da! – Synau anifeiliaid yn Gymraeg

*While reading Ilyfrau Cymraeg with your plentyn, you may have noticed that anifeiliaid make different sounds yn Gymraeg!*

Mochyn – soch soch

Ci – bow wow


Cath – miaw, canu grwndi (*purring*)

Buwch – mw mw

Dafad – me me

Iâr – clwc clwc

*Next time you visit a farm or when talking about pets, why not use their synau Cymraeg?*



### Cân – Milgi Milgi

*This cân about a milgi (greyhound) and a cheeky sgbarnog (hare) is popular with children and adults alike, and the simple chorus is instantly memorable.*



*You will find many versions of Milgi Milgi on YouTube, including this great version by Plu.*

[Milgi, milgi - YouTube](#)

[Home | pluband](#)



## Sgwrs 1

**Mel:** Helo Ash, sut wyt ti?

**Ash:** lawn diolch, Mel ... grêt, a deud y gwir. Wyt ti'n medru cadw cyfrinach?

**Mel:** Ydw, wrth gwrs. Duda wrtha i, be sy wedi digwydd?

**Ash:** Wel, dw i wedi bwcio gwyliau i'r teulu yn y Lapdir cyn y Nadolig.

**Mel:** Waw! Mi fydd Elena (Dafydd) yn hapus iawn.

**Ash:** Bydd! Dw i wedi talu am bob dim. Trip i weld Goleuadau'r Gogledd ...

ceirw ... corachod... ac wrth gwrs, Siôn Corn! Ond paid â deud wrthi hi. Sypréis ydy o. Paid â deud wrth y plant (Siân) chwaith.

**Mel:** Wrth gwrs. Fydd a ddim yn deud wrthyn nhw. Fydd a ddim yn deud wrth neb.

**Ash:** Diolch.

**Mel:** Dw i'n genfigennus iawn. Ga i ddŵad hefyd?

**Ash:** Ha ha! Sori, does 'na ddim lle yn y cês!

Nawr, darllenwch y sgwrs eto efo'r *names in brackets* y tro yma.

## Siaradwch

Dach chi wedi bod dramor dros y Nadolig?

Lle dach chi ar ddydd Nadolig fel arfer?

Dach chi'n hoffi syrpreisys?

Dach chi'n medru cadw cyfrinach?



## Sgwrs 2

**Rhiant:** Be sy'n bod, cariad? Wyt ti'n poeni am rywbeth?

**Plentyn:** Wel, dw i'n poeni tipyn bach am yfory.

**Rhiant:** O? Pam?

**Plentyn:** Mae 'na brawf sillafu yfory.

**Rhiant:** O, paid â phoeni amdano fo!

**Plentyn:** Dw i ddim yn medru stopio

poeni amdano fo!

**Rhiant:** Reit, tyrd yma. Lle mae geiriau yr wythnos yma?

**Plentyn:** Dyma nhw.

**Rhiant:** Dw i'n mynd i ymarfer y geiriau efo ti.

**Plentyn:** Diolch. Dw i'n teimlo'n well rŵan.

Rŵan, instead of worrying about a prawf sillafu, the plentyn is worried about a gwers fathemateg, which is feminine, and symiau instead of geiriau. Work out the changes you need to do, and read the sgwrs again.

## Ymarfer

Efo'ch partner, atebwch y cwestiynau efo rhagenwau (*pronouns*).  
*Remember to change the arddodiad if necessary.*

Er enghraifft:

Wyt ti wedi talu am y gwersi gitâr? (nhw)

Do, dw i wedi talu amdanyn nhw.

Wyt ti wedi chwilio am y sanau pêl-droed? (nhw)

Wyt ti wedi talu am y wisg ysgol? (hi)

Wyt ti wedi dechrau meddwl am y gwaith cartref? (fe)

Wyt ti wedi clywed am y trip ysgol? (fe)

Wyt ti wedi gwrando ar y neges (hi)


Wyt ti wedi gofyn i'r plant am y parti? (nhw)

Wyt ti wedi gofyn i'r athro? (fe)

Wyt ti wedi siarad efo'r athrawes? (hi)


Without looking back, draw two lines from each picture to join the animal to its name yn Gymraeg!

dafad



miaw  
Canu  
grwndi

iâr




mochyn

clwc  
clwe



ci

cath



Me  
Me



buwch

## Wnei di agor ffenest?

### Geirfa

**criw(iau)** – crew(s)

**gwres** – heat / heating

**llwyth(i)** – load(s)

**brwnt** – dirty


**yr un pryd â** the same time as

## Syniad da! – Cerddoriaeth Gymraeg

We've already talked about Radio Cymru and you've been introduced to many great caneuon Cymraeg for children in the **Cân** section of this course, but there's so much more to cerddoriaeth Gymraeg than this! From indie, rock, hip hop to folk and everything in between, there's something for everyone in the Welsh language music scene. Listening to cerddoriaeth Gymraeg will also help you pick up new vocabulary and deepen your understanding of the history and culture of Cymru.

Your tiwtor and local Menter Iaith can let you know about gigs Cymraeg being held in your area. Another good place to start would be the Dydd Miwsig Cymru website: [Welsh Language Music Day | GOV.WALES](https://gov.wales/dydd-miwsig-cymru) which provides information about events held to celebrate the annual Dydd Miwsig Cymru in February, as well as regularly updated music playlists and videos which can be accessed all year.





## Cân – Adeiladu tŷ bach

Adeiladu tŷ bach, un, dau, tri,  
to ar ei ben a dyna ni;  
sbio mewn trwy'r ffenest,  
Beth welwn ni?  
  
Llygoden fach yn cysgu, ust, da chi,  
llygoden fach yn cysgu yn y tŷ,  
llygoden fach yn **deffro!**  
I ffwrdd â hi!

hawlfraint Margaret Lloyd Hughes

*Build a little house, one, two, three,  
A roof on the top, and there we go;  
look through the window,  
What do we see?  
  
A little mouse sleeping, hush, please,  
little mouse sleeping in the house,  
little mouse wakes!  
Off she goes!*

*copyright Margaret Lloyd Hughes*

*This song is great fun to act out with young children, as you will see in these videos by Mudiad Meithrin and Denbighshire Book Trust:*



[Adeiladu Ty Bach - YouTube](#)

[Dau dderyn bach ac Adeiladu ty bach - YouTube](#)



## Sgwrs 1

**Rhiant:** O na, mi wnes i gysgu'n hwyr!  
 Mae Nain yn galw heddiw.  
 Rhaid i ni dacluso! Wnei di roi'r  
 llestri budr yn y peiriant?

**Plentyn:** Wna i. Faint o'r gloch mae  
 hi'n cyrraedd?

**Rhiant:** Un ar ddeg. Felly mae  
 gynnon ni awr! Mi wna i  
 llinau'r ystafell ymolchi. Wnei  
 di roi'r gemaau yn y bocs?

**Plentyn:** Wna i. Be wedyn?

**Rhiant:** Dos i wisgo. Ond paid â  
 gadael dy byjamas di ar y  
 llawr!

**Plentyn:** Wna i ddim!

**Rhiant:** Lle mae'r bleach?

**Plentyn:** Dw i ddim yn gwybod!

**Rhiant:** Wnei di chwilio amdano fo?

**Plentyn:** lawn... Be ydy bleach?

**Rhiant:** Potel fawr blastig ... lliw  
melyn ... neu ella pinc. Dw i  
 ddim yn cofio! Plîs dos i

chwilio – rŵan!

**Plentyn:** lawn, iawn – dw i'n mynd.  
 [saib] Dad?

**Rhiant:** Be? Dw i'n brysur!

**Plentyn:** Mae Nain ar y ffôn. Mi  
 wnaeth hi gysgu'n hwyr  
 hefyd! Felly, fydd hi ddim yn  
 cyrraedd tan hanner dydd.

**Rhiant:** Ffiw, diolch byth!



## Ymarfer

Gweithiwr efo'ch partner. Partner A reads a statement from column A, and Partner B must choose a suitable response from column B.

A	B
Dw i wedi rhoi disl yn lle petrol yn y car. ☹	Mi wna i goffi i ti.
Dw i isio bwyd.	Wnei di brynu cerdyn iddi hi yn y siop?
Mae gen i gyfrinach.	Mi wna i ffonio'r garej i ti.
Mi ddeffrodd y plant am bump bore 'ma.	Mi wna i siopa ar y ffordd adre.
Mae pen-blwydd dy fam di yfory.	Wna i ddim deud wrth neb.
Does 'na ddim bwyd yn y tŷ.	Wnei di roi bath iddyn nhw?
Mae'r gwres wedi torri yn y swyddfa.	Mi wna i frechdan i ti.
Mae'r plant yn fudr.	Mi wna i weithio adre felly!

## Sgwrs 2

- A: Mi fydd y penwythnos yma'n brysur!
- B: Bydd! Nos Wener, mae gêm griced Rhodri yr un pryd â gwers nofio Ela.
- A: Mi wna i fynd â Rhodri. Wnei di fynd ag Ela i'r wers nofio?
- B: Iawn... ond dw i'n gwybod pam rwyti isio mynd i'r gêm. Rwyti ti isio peint yn y Clwb Criced!
- A: Pam ddim? Mi fydd y tywydd yn braff nos Wener. Mi fydd Rhodri'n mwynhau chwarae yn y parc ar ôl y gêm.
- B: Iawn, iawn. Gwna hynny. Be am ddydd Sadwrn?
- A: Mae Macsen yn mynd i barti pen-blwydd Lili yn y bore, yr un pryd â dosbarth jiwdo Rhodri. Wnei di fynd â Macsen i'r parti?
- B: Na wna i, sori. Wyt ti'n cofio? Dw i wedi trefnu i wneud Park Run efo'r

- criw.
- A: O. Be am dy fam di? Wneith hi helpu?
- B: Mae Mam yn mynd ar drip Merched y Wawr i Aberaeron. Be am dy dad di?
- A: Hm. Mi wna i ofyn iddo fo ond mi fydd y parti'n rhy swnllyd iddo fo.
- B: Wel, be am i ti fynd i'r parti? Mi fydd dy dad yn medru mynd â Rhodri i'r dosbarth jiwdo.
- A: Hm... iawn. O, dw i'n casáu mynd i bartïon pen-blwydd plant bach!
- B: Dy dro di ydy o! Dw i wedi bod i lwythi o bartïon yn ddiweddar, a dw i wedi trefnu i wneud Park Run ers wythnosau.
- A: Iawn, iawn. Mi wna i fynd i'r parti.
- B: Gwych, dan ni wedi trefnu dydd Sadwrn. Rwan, be am ddydd Sul?

## Siaradwch

Dach chi'n brysur efo'r plant dros y Sul fel arfer?  
Be oeddech chi'n wneud ar benwythnosau cyn cael plant?  
Dach chi'n hoffi mynd â'r plant i bartïon pen-blwydd eu ffrindiau nhw?  
Dach chi'n hoffi trefnu partïon pen-blwydd?  
Dach chi fel arfer yn mynd i ffwrdd ar benwythnosau Gŵyl y Banc?

## Tasg

Efo'ch partner, ysgrifennwch 5 cwestiwn i'ch plentyn/plant chi, yn defnyddio (*using*) 'Wnei di / Wnewch chi ...?'. Er enghraifft, 'Wnewch chi dacluso'r Lego?'

1. ....
2. ....
3. ....
4. ....
5. ....

## Mi a i i'r dosbarth yfory

### Geirfa

**Caerfaddon – Bath**

**Ilygoden fawr (Ilygod mawr) – rat(s)**

**gwely(au) bync – bunk bed(s)**

**hostel(i) – hostel(s)**

**llety – accommodation**

**cynigion munud olaf – last-minute offers**

**gwyliau pecyn – package holiday/s**

**Parc Cenedlaethol Eryri – Snowdonia National Park**

**anabl – disabled**

## Syniad da! – Gwyliau Cymraeg

Dan ni wedi siarad am gyrsiau preswyl (*residential courses*) ond dach chi'n medru ymarfer eich Cymraeg chi mewn ffordd anffurfiol (*informal*) ar eich gwyliau hefyd. Be am fynd i aros mewn llety (*accommodation*) efo staff sy'n siarad Cymraeg? Mae Garth Newydd yn Llanbedr Pont Steffan [Paned – Paned.Cymru](#) a Llety Arall yng Nghaernarfon [Llety Arall – Llety. Diwylliant. Treftadaeth.](#) yn rhoi croeso Cymraeg arbennig i ddysgwyr Cymraeg a siaradwyr Cymraeg. Opsiwn arall ydy Canolfan Iaith Nant Gwrtheyrn. Does dim rhaid i chi wneud cwrs i aros yno [North Wales accommodation | Llŷn Peninsula accommodation \(nantgwrtheyrn.org\).](#)

## Cân – I'r ysgol

Mae 'na lawer o siaradwyr Cymraeg yn gwybod y pennill (*verse*) yma. *In different parts of Cymru, there are variations of it and additional verses, and it's sometimes sung too.*

Mi af i'r ysgol fory,  
â llyfr yn fy llaw;

*I'll go to school tomorrow  
with a book in my hand*

heibio'r eglwys newydd,  
a'r cloc yn taro naw.

*past the new church  
as the clock strikes nine*



## Sgwrs

- A Wyt ti wedi clywed y newyddion?  
Mi fydd y tywydd yn ofnadwy dros  
hanner tymor.
- B O na! Be wnawn ni?
- A Dan ni ddim yn medru mynd i  
wersylla'r wân. Mi fydd 'na stormydd  
ym Mhen Llŷn.
- B Mi fydd y plant yn siomedig. Rhaid i  
ni feddwl am rywbeth.
- A Be am fynd i aros efo fy ewythr yn  
Llundain?
- B Na, na – a i ddim yn ôl i aros efo fo!  
Wyt ti'n cofio'r llygod mawr yn ei fflat  
o?
- A O ydw. Pwynt teg. Mi wna i edrych  
ar y we nawr. Mi fydd 'na gynigion  
munud olaf ar gael.
- B Syniad da – ond dim byd rhy ddrud!
- A lawn, wrth gwrs. Reit – be am hwn?  
Tair noson yng Nghaerdydd ... ystafell  
i deulu mewn gwesty reit neis wrth yr  
amgueddfa ... brecwast da hefyd ...
- B Ww, mae'n edrych yn hyfryd. Mi es  
i i Gaerdydd pan o'n i'n fach efo fy  
rhieni, ac roedd o'n wyliau gwych.  
Awn ni yno, ta?
- A lawn. Ond wyt ti wedi gweld y pris?  
Rhaid i ni dalu am y trên i Gaerdydd  
hefyd ...
- B Mae'r pris yn reit rhesymol. Dydy o  
ddim yn rhy ddrwg. Mi wna i dalu  
efo'r cerdyn credyd – mi fydd pob  
dim yn iawn.
- A lawn, diolch. Mi a i i ddeud wrth  
y plant. Mi fyddan nhw'n teimlo'n  
gyffrous iawn.

## Siaradwch

- Fyddwch chi'n mynd ar wyliau eleni? Lle ewch chi?
- Dach chi wedi teithio dramor efo'r plant?
- Os dach chi'n mynd dramor, dach chi'n bwcio gwyliau pecyn (*package holiday*)?
- Dach chi'n hoffi gwneud llawer o bethau pan dach chi ar eich gwyliau, neu  
dach chi'n hoffi ymlacio wrth y pwll neu ar y traeth?
- Dach chi fel arfer yn mynd ar wyliau efo teulu arall neu ffrindiau?
- Dach chi wedi bod i ffwrdd am wyliau heb y plant?

Llenwch y  
bylchau yn y  
brawddegau  
yma.

ei      aiff  
ewch    af  
âw      awn

Lle \_\_\_\_\_ chi ar eich gwyliau chi eleni?  
\_\_\_\_\_  
ni i'r Swistir efo'r garafán.

Lle \_\_\_\_\_ y cŵn pan dach chi ar eich gwyliau chi?  
\_\_\_\_\_  
nhw i'r cartref cŵn yn Abercastell.

Lle \_\_\_\_\_ di pan fydd y plant yn aros efo Nain?  
\_\_\_\_\_  
i i'r sba i ymlacio!





## Gwrando

Mi fyddwch chi'n gwrando ar bedwar o bobol yn siarad am eu gwyliau nhw: Sara, Tomos, Sam a Beth.

Ar ôl gwrando, ticiwch 'cywir' neu 'anghywir' yn ymyl y brawddegau yn y tabl.

Pwy?	Cywir neu anghywir?	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Sara	Eleni, mi eith hi i Sbaen. Mi eith ei phlant hi i Ffrainc.		
Tomos	Mae Tomos a'i bartner yn hoffi mynd ar wyliau dramor. Eleni, mi ân nhw ar wyliau yng Nghymru.		
Sam	Mae Sam yn dŵad o Dubai yn wreiddiol. Mi fydd o'n aros yn Dubai dros yr haf.		
Beth	Mi eith Beth dramor eleni. Mi fydd y teulu'n aros mewn gwesty.		

Edrychwch ar y cardiau post yma. Pwy anfonodd y cardiau yma?  
 Wedyn, siaradwch am y cardiau. Dach chi wedi bod i rai o'r llefydd yma?  
 Be dach chi'n wybod amdanyn nhw?



## Mi ga i dost i freqwast yfory. Ga i dost os gweli di'n dda?

### Geirfa

**Ilechen (Ilechi)** – (digital) tablet(s)  
hefyd, slate(s)

**sgwâr (sgwariau)** – square(s)

**teclyn (teclynnau)** – gadget(s)

**ffraeo** – to quarrel

**cwyno** – to complain

**plesio pawb** – to please everyone

**enfawr** – huge



### Syniad da! – Siarad Cymraeg efo'r anifail anwes

If you have an anifail anwes, why not practise your Cymraeg with him or her? It may sound a bit silly, but it's a great way of practising commands ('Tyrd yma!' etc). Also, siarad Cymraeg out loud will help improve your pronunciation, even if you don't get a response!

These lovely books by Anne Cakebread might help if you're unsure where to begin.

[www.gwales.com - 9781912631025, Teach Your Dog Welsh](http://www.gwales.com - 9781912631025, Teach Your Dog Welsh)

[www.gwales.com - 9781800991828, Teach Your Dog Gog](http://www.gwales.com - 9781800991828, Teach Your Dog Gog)

[www.gwales.com - 9781912631087, Teach Your Cat Welsh](http://www.gwales.com - 9781912631087, Teach Your Cat Welsh)

## Cân - Dau Dderyn Bach

*This song, by husband and wife Meredydd Evans and Phyllis Kinney, is often learnt with movements yn y Cylch Meithrin neu yn yr ysgol.*

Dau dderyn bach ar ben y to,	<i>Two little birds on the roof,</i>
Dyma Jim a dyma Jo,	<i>This is Jim, and this is Jo,</i>
Dos i ffwrdd Jim, dos i ffwrdd Jo,	<i>Go away Jim, go away Jo,</i>
Tyrd yn ôl Jim, tyrd yn ôl Jo.	<i>Come back Jim, come back Jo.</i>

*Here are two lovely versions by Ann Hopcyn and Denbighshire Book Trust:*

[Dau Dderyn/Adeiladu Tŷ Bach/Siani Flewog/Rownd a Rownd - YouTube](#)

[Dau dderyn bach ac Adeiladu ty bach - YouTube](#)



## Sgwrs 1

- A: Be gawn ni i swper nos Sadwrn pan fydd dy frawd di a'r teulu yma?
- B: Dw i ddim yn gwybod... pitsa? Mae'r popty pitsa newydd yn wych.
- A: Wel, mae plant dy frawd di'n feganiaid, cofia.
- B: Ydyn – dw i ddim wedi anghofio hynny. Mi wna i brynu caws fegan - mi gân nhw hwnna ar eu pitsas

nhw. Mi geith pawb arall gaws mozzarella. Mi gei di bitsa arbennig, efo nionod a digon o saws chilli. Dy ffefrynn di!

- A: Perffaith. Be am salad hefyd?
- B: lawn, syniad da. Dw i'n edrych ymlaen at eu gweld nhw. Mi gawn ni amser da, dw i'n siŵr.
- A: Gobeithio cawn ni dywydd da hefyd!

## Siaradwch

- Dach chi'n mwynhau coginio i deulu a ffrindiau?
- Dach chi'n hoffi trio ryseitiau newydd neu dach chi'n coginio'r un pethau bob wythnos?
- Ydy hi'n anodd plesio pawb yn eich tŷ chi amser swper?



# Ymarfer

Efo'ch partner, parwch y brawddegau efo'r ymatebion.

Dan ni'n boeth!

Dw i'n oer!

Mae hi wedi syrthio yn y mwd.

Mae ei esgidiau o'n rhy fach.

Dan ni isio bwyd!

Maen nhw wedi blino.

Mi geith hi fath heno.

Mi gawn ni swper cyn bo hir.

Mi gewch chi hufen iâ yn y parc.

Mi gân nhw gysgu yn y car.

Mi gei di siocled poeth pan dan ni adre.

Mi geith o esgidiau newydd dydd Sadwrn.

## Sgwrs 2

Llenwch y bylchau cyn darllen y sgwrs efo'ch partner chi.

**Rhiant:** Rhodri a Rhian - gawn ni air?

**Rhodri:** O? \_\_\_\_\_ sy'n bod?

**Rhian:** Ydan ni wedi gwneud rhywbeth drwg?

**Rhiant:** Nac ydych ... wel, dim byd drwg iawn, ond rwyti, Rhodri, wedi bod ar dy \_\_\_\_\_ symudol di drwy'r dydd, ac rwyti, Rhian, yn edrych ar y llechen ers oriau!

**Rhian:** Mae hi'n bwrw \_\_\_\_\_! Dw i ddim yn medru gwneud unrhyw beth arall!

**Rhiant:** Hmm. Dim mwy o sgriniau heddiw. Mi fydd eich llygaid chi'n sgwâr! Be am y llyfrau ar y silff?

**Rhodri:** Dw i ddim isio \_\_\_\_\_. Gawn ni fynd i'r cinema neu'r pwall nofio?

**Rhiant:** Na chawn, rhaid i mi weithio am awr arall. Rhaid i chi wneud rhywbeth. Be am dynnu llun?

**Rhian:** Diflas!

**Rhiant:** Sgwennu stori?

**Rhodri:** Dan ni ddim yn yr ysgol rŵan!

**Rhiant:** Chwarae efo Lego?

**Rhodri:** Dw i'n rhy \_\_\_\_\_ i chwarae efo Lego.

**Rhiant:** Nac wyt wir! Rŵan – mae 'na awr tan i mi orffen gweithio. Dw i isio i chi adeiladu castell Lego i mi.

**Rhian:** Castell mawr?

**Rhiant:** Enfawr! Wedyn, mi awn ni i'r caffi newydd yn y dref. Mi gewch chi unrhyw \_\_\_\_\_ iâ dach chi isio.

**Rhodri:** O waw. Unrhyw un? Efo *flake* a saws hefyd?

**Rhiant:** Wrth gwrs. Ond rhaid i chi fod yn blant da. Dim cwyno, dim ffraeo, a dim teclynnau!

**Rhian:** lawn, iawn.

**Rhiant:** A heno, mi gawn ni noson heb dechnoleg. Be am gêm o Monopoly?

**Rhodri:** Grêt. Mi fydda i'n ennill. Hawdd!

**Rhiant:** Mi gawn ni weld! Reit, i ffwrdd â chi i nôl y Lego!

# Gweithgaredd

Be gân nhw i fwyta?



Efo'ch partner, dewiswch y bwyd i bawb. Wedyn, ysgrifennwch ddwy frawddeg am bob person / anifail.

Er enghraifft:

Mi geith Pero fwyd ci. Cheith o ddim siocled.

Idris

Taid

Ceri a Catrin

Mam

Y moch cwta

## un flwyddyn, dwy flynedd, tair blynedd

### Geirfa

Rhydychen – Oxford

Awdurdod Addysg Lleol  
– Local Education Authority

cyfnod tadolaeth – paternity leave

Dw i ddim wedi eich gweld chi o'r blaen – I haven't seen you before

## Syniad da! – Mynd i weld drama Gymraeg

### Sibrwd



Na, dach chi ddim yn siarad Cymraeg yn rhugl eto. Ond, dach chi'n medru mwynhau dramâu Cymraeg yn y theatr. Theatr Genedlaethol Cymru uses an app called Sibrwd ('whisper' yn Gymraeg), which gives you a synopsis in English of what's going on ar y llwyfan so that you don't miss a thing. Maen nhw hefyd yn defnyddio uwch-deitlau (surtitles) in some productions. Ewch i [Theatr Genedlaethol Cymru | Home](#) to read about its latest productions or ask your tiwtor about dramâu Cymraeg in your area that you could enjoy with your dosbarth, teulu neu ffrindiau.

# Cân – Melinydd oedd fy nhaid

*This folk song has been sung by many bandiau Cymraeg over the years, but the most famous version is by Plethyn on their album ‘Caneuon Gwerin i Blant - Welsh Folk Songs for Children’. Yn y penillion nesaf, dan ni’n canu ‘chwarelwr’ (quarryman) a ‘pysgotwr’ (fisherman) yn lle ‘melinydd’.*

*My grandfather was a miller  
I am a miller, the best in the land,  
The baby will be a miller, when it  
enters the world  
Isn't it strange that we're all  
millers?*

Dyma fersiwn Plethyn: [Melin yd Oedd Fy Nhaid - YouTube](#)



# Sgwrs 1

- Pennaeth** Bore da, Ysgol Gynradd Abercastell. Y Pennaeth yn siarad.
- Emma** Bore da. Emma Jones dw i. Dw i a'r teulu'n byw yn Birmingham ar hyn o bryd, ond dan ni wedi prynu tŷ yn Abercastell. Mi fyddwn ni'n symud cyn bo hir, gobeithio.
- Pennaeth** Da iawn, llonyfarchiadau. Sgynnoch chi blant ifanc?
- Emma** Oes. Mae gen i fabi – Gruff – a hogan fach o'r enw Cerys. Mae hi'n bedair oed. Felly, rhaid i mi ffeindio ysgol iddi hi. Oes 'na le yn Ysgol Abercastell?
- Pennaeth** Dw i ddim yn siŵr. Pryd fydd hi'n bump?
- Emma** Mis Mawrth.
- Pennaeth** Felly, mi fydd hi'n mynd i'r Dosbarth Derbyn ... gadewch i fi edrych ... oes, mae 'na ddigon o le yn y Dosbarth Derbyn. Ond rhaid i chi ffonio'r Awdurdod Addysg Lleol i drefnu efo nhw.
- Emma** lawn, dim problem.
- Pennaeth** Ydy hi'n siarad Cymraeg?
- Emma** Ydy. Dim ond Cymraeg dw i'n siarad efo hi. Mae fy mhartner yn dysgu Cymraeg ers dwy flynedd felly mae o'n medru siarad llawer o Gymraeg efo hi. Mae fy rhieni i'n siarad Cymraeg hefyd. Mi fyddan nhw'n helpu i ofalu am y plant ar ôl i ni symud i Gymru.
- Pennaeth** Ardderchog. Wel, ar ôl i chi symud, dewch i weld yr ysgol efo Cerys. Mae 'na blant hyfryd yn y Dosbarth Derbyn felly dw i'n meddwl bydd hi'n hapus iawn.
- Emma** Diolch yn fawr! Mi wela i chi cyn bo hir. Hwyl!
- Pennaeth** Hwyl!



## Sgwrs 2

Wrth yr ysgol. Mae hi'n bwrw glaw.

**Lyn**    Helo! Dach chi isio dŵad dan yr ymbarél?

**Emma** O, diolch yn fawr. Mae'r glaw yn ofnadwy!

**Lyn**    Dim problem. Lyn dw i. Dw i'n nôl Cerys. Mae hi yn y Dosbarth Derbyn.

**Emma** Emma dw i. Mae fy merch i yn y Dosbarth Derbyn. Cerys ydy ei henw hi hefyd! Cerys Jones.

**Lyn**    Cerys James ydy ein Cerys ni. O, dyna gur pen i Miss Tomos, yr athrawes!

**Emma** Ia wir!

**Lyn**    Dw i ddim wedi eich gweld chi o'r blaen. Dach chi'n newydd i'r ardal yma?

**Emma** Ydw. Mi wnes i a'r teulu symud yma wythnos diwethaf. Roedden ni'n byw yn Birmingham am ddeg mlynedd. Roedden ni'n hapus iawn yn Birmingham, ond roedden ni isio anfon Cerys i ysgol Gymraeg. Hefyd, dw i a fy mhartner i'n medru gweithio ar-lein rŵan, felly doedd dim rhaid i ni aros yn Birmingham.

**Lyn**    Wel, dach chi wedi dewis lle neis i fyw. Mae Abercastell yn hyfryd.

**Emma** O, dw i'n gwybod. Dw i'n dŵad o Abercastell yn wreiddiol, ond mi symudon ni i Gaerdydd pan o'n i'n ddeg oed. Ro'n i'n byw yng Nghaerdydd am wyth mlynedd, cyn i mi fynd i'r Brifysgol yn Rhydychen. Ro'n i'n astudio yno am bum mlynedd. Wedyn, ar ôl i mi orffen yn y Brifysgol, mi wnes i symud i Birmingham.

**Lyn**    Dach chi wedi symud llawer!

**Emma** Do. Ond ro'n i isio magu fy nheulu i yng Nghymru, ac mae Abercastell yn berffaith.

**Lyn**    Ydy wir. O, mae'r plant yn dŵad allan o'r dosbarth rŵan. Dyma nhw'n dŵad - Cerys a Cerys!

**Emma** Braf eich cyfarfod chi, Lyn. Mi wela i chi cyn bo hir.

**Heb edrych yn ôl ar y sgwrs, atebwch y cwestiynau yma efo'ch partner.**

1. Pwy ydy Cerys James?

Hogan Lyn ydy Cerys James

2. Pwy ydy Cerys Jones?

Hogan ydy Cerys Jones

3. Pwy ydy athrawes y Dosbarth Derbyn?

Birmingham

Abercastell

Rhydychen

Caerdydd

**Darllenwch y sgwrs eto, ond y tro yma, mae Emma a Lyn yn defnyddio 'ti' yn lle 'chi'.**


## Ymarfer

Mae Enid ac Elwyn, Cian, Betsan a Twm yn mynd i Ysgol Gyfun Glanwlpan rŵan. Ond lle oedden nhw'n mynd cyn hynny?

Efo'ch partner, edrychwch ar y ffeithiau yma am y plant. Wedyn, *take turns to ask questions about each child.*

Er enghraifft:

- Am faint oedd Enid ac Elwyn ym Meithrinfa Jac y Jwc?
- Roedden nhw ym Meithrinfa Jac y Jwc am ddwy flynedd.

 <p>Enid ac Elwyn</p>	 <p>Cian</p>	 <p>Betsan</p>	 <p>Twm</p>
Meithrinfa Jac y Jwc 2011-2012	Tŷ Nain 2010-2013	Meithrinfa Beti Bwt 2009-2013	Clwb Ti a Fi 2010-2013
Meithrinfa'r Coleg 2012-2013	Cylch Meithrin Glanwlpan 2013-2015	Cylch Meithrin Rhyd-y-plu 2013-2014	Cylch Meithrin Rhyd-y-plu 2014-2015
Cylch Meithrin Abercastell 2013-2015	Ysgol Gynradd Glanwlpan 2015-2020	Ysgol y Babanod, Rhyd-y-plu 2014-2018	Ysgol y Babanod, Rhyd-y-plu 2015-2018
Ysgol Gynradd Abercastell 2015-2022	Ysgol Gynradd Abercastell 2020-2022	Ysgol Iau Rhyd-y-plu 2018-2022	Ysgol Gynradd Abercastell 2018-2022

## Siaradwch

- Ydy eich plentyn / plant chi'n mynd i'r ysgol rŵan?
- Oedden nhw'n mynd i rywle cyn mynd i'r ysgol? Am faint oedden nhw'n mynd yno?
- Gaethoch chi gyfnod mamolaeth / tadolaeth? Am faint doeddech chi ddim yn y gwaith?
- Os dach chi'n gweithio, dach chi'n mwynhau eich gwaith chi?
- Os dach chi ddim yn gweithio, fasech chi'n hoffi cael swydd?

## Adolygu ac ymestyn

### Geirfa

**hylif(au)** – liquid(s), fluid(s)

**jar(iau)** – jar(s)

**nwydd(au)** – good(s)

**siampŵ** – shampoo

**cyfrannu** – to contribute

**Mwynha!** – Enjoy yourself! (informal - ti)

## Syniad da! – Bys a bawd

Bys a Bawd is an app for plant bach developed by Cered (Menter Iaith Ceredigion) which uses augmented reality to bring nursery rhymes to life. Canwch efo Bedo and follow his movements yn eich lolfa chi! The app also contains nursery rhymes with other fun animations.



## Cân – Ble Mae Bawdyn? (geiriau Phyllis Kinney)

1. Ble mae Bawdyn?  
Ble mae Bawdyn?  
Dyma fi.  
Dyma fi.  
Sut mae heddiw?  
Da iawn diolch.  
I ffwrdd â chi,  
I ffwrdd â chi!

Dach chi'n medru gwrando  
ar y gân a dysgu'r  
symudiadau (*movements*)  
ar ap Bys a Bawd.

- Wedyn, canwch:
2. Ble mae Uwdyn?
3. Ble mae Cogwr?
4. Ble mae Pibydd?
5. Ble mae Pwtyn?



# Darllen: Llythyr o'r ysgol

## Annwyl Riant / Warcheidwad,

Mi fydd Bore Coffi yn yr ysgol Dydd Gwener 30 Medi i godi pres at Fanc Bwyd Abercastell. Pris tocyn ydy £3.50, ac mae o'n cynnwys paned a darn o gacen. Mi fyddwn ni hefyd yn casglu nwyddau ar gyfer y Banc Bwyd.

Mi fasen ni'n ddiolchgar iawn tasech chi'n medru cyfrannu rhai o'r pethau yma:

- Tuniau cawl
- Ffrwythau a llysiau mewn tun
- Te a choffi
- Llefrith UHT
- Bisgedi
- Grawnfwydydd
- Pasta a reis
- Bwyd mewn jariau e.e. saws pasta, saws cyrri
- Sebon
- Siampŵ
- Past dannedd a brwshys dannedd
- Powdr golchi dillad
- Hylif golchi llestri
- Pethau glanhau

Os dach chi isio cyfrannu ond ddim yn medru dŵad i'r Bore Coffi, dewch â nwyddau a phres i'r ysgol erbyn dydd Iau 29 Medi os gwelwch yn dda. Mi fasen ni hefyd yn hoffi cacennau cartref a bisgedi ar gyfer y Bore Coffi os yn bosib.

Mae croeso i chi ffonio'r ysgol os dach chi isio gofyn cwestiynau.

Yn gywir,

Ms C Dafis

Pennaeth Ysgol Gynradd Abercastell

1. Be sy'n digwydd ar 30 Medi yn Ysgol Abercastell?

2. Heb edrych yn ôl ar y darn, ysgrifennwch 5 peth maen nhw isio ar gyfer y Banc Bwyd.

1

2

3

4

5

3. Heb edrych yn ôl, ysgrifennwch yr ymadroddion (*phrases*) yma yn Gymraeg:

*We will also be collecting goods for the Food Bank.*

*We'd be very grateful.*

*Bring goods and money to the school.*

*If possible*





## Sgwrs 1

**Plentyn:** Mam, wyt ti wedi gweld y llythyr am y Bore Coffi?

**Mam:** Do. Yn anffodus, dw i'n gweithio dydd Gwener. Ond, dw i wedi siarad efo Dad, ac mae gynno fo ddiwrnod i ffwrdd. Felly, mi ddaw o i'r Bore Coffi. Mi ddaw o â chacen hefyd.

**Plentyn:** Cacen lemwn?

**Mam:** Wrth gwrs! Mae Dad yn

medru gwneud cacen lemwn ardderchog.

**Plentyn:** Be am y Banc Bwyd?

**Mam:** Mi a i i'r archfarchnad i brynu rhai o'r pethau ar y rhestr. Mi gei di fynd â nhw i'r ysgol fory.

**Plentyn:** Diolch Mam.

**Mam:** Dim problem. Mae'n bwysig iawn.

## Ymarfer

Lle?	Pryd?	Sut?	Efo pwy?
Cyngerdd ysgol	Mis Rhagfyr	Bws	Y teulu
Sioe Cyw	Mis Awst	Tractor	Y ci
Parti gwisg ffansi	Mis Chwefror	Cwch	Ffrindiau
Taith gerdded	Mis Ebrill	Awyren	Mr Urdd
Sioe ffasiwn	Mis Hydref	Awyren	Y gath

Edrychwch ar y tabl a dewiswch lle dach chi'n mynd, pryd, sut ac efo pwy.

Wedyn, rhaid i chi a'ch partner ofyn y cwestiynau yma:

- Lle ei di?
- Pryd ei di?
- Sut ei di yno?
- Efo pwy ei di?

## Sgwrs 2

**Efo'ch partner, llenwch y bylchau yn y sgwrs yma.**

**Wedyn, darllenwch y sgwrs.**

**A:** O'r diwedd, nos Wener!

**B:** Ia, mae'r penwythnos wedi dŵad diolch byth! A dw i'n mynd i ffwrdd efo fy hen ffrindiau ysgol!

**A:** O! Lle \_\_\_\_\_ chi?

**B:** \_\_\_\_\_ ni i \_\_\_\_\_.

**A:** Sut \_\_\_\_\_ chi?

**B:** Mi awn \_\_\_\_\_ ar y \_\_\_\_\_.

**A:** Fyddwch chi'n aros dros nos?

**B:** \_\_\_\_\_. Dan ni wedi bwcio gwesty hyfryd.

**A:** Dyna braf! Be am y plant?

**B:** \_\_\_\_\_ nhw i aros efo Nain. Eith \_\_\_\_\_ â nhw i \_\_\_\_\_ felly mi fydd pawb yn hapus!

**A:** Be dach chi'n mynd i wneud yn \_\_\_\_\_?

**B:** Dan ni'n mynd i \_\_\_\_\_, \_\_\_\_\_ a \_\_\_\_\_.

**A:** Ardderchog! Mwynha!

## Sgwrsio

Defnyddiwch yr olwyn sgwrsio yma i siarad efo'ch partner:

<https://wordwall.net/resource/36495598>